OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 3118 (Cy.296)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Cyllidebau AALl, Cyllidebau Ysgolion a Chyllidebau Ysgolion Unigol (Cymru) 2003

Wedi'u gwneud - -	*2 Rhagfyr 2003*
Yn dod i rym - -	*4 Rhagfyr 2003*

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 45A a 138(7) a (8) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyllidebau AALl, Cyllidebau Ysgolion a Chyllidebau Ysgolion Unigol (Cymru) 2003 a deuant i rym ar 4 Rhagfyr 2003.

(2) Maent yn gymwys i'r blynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar neu ar ôl 31 Mawrth 2004 yn unig.

(3) Maent yn gymwys i Gymru yn unig.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn —

ystyr "y Cynulliad Cenedlaethol" ("*the National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "Deddf 1996" ("*the 1996 Act*") yw Deddf Addysg 1996(**3**);

ystyr "Deddf 1998" ("*the 1998 Act*") yw Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998;

ystyr "Deddf 2000" ("*the 2000 Act*") yw Deddf Dysgu a Medrau 2000(**4**);

ystyr "Deddf 2002" ("*the 2002 Act*") yw Deddf Addysg 2002.

(2) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "ysgol a gynhelir" ("maintained school") yw ysgol gymunedol, ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol neu ysgol gymunedol arbennig neu ysgol sefydledig arbennig.

(**1**) 1998 p.31. I gael ystyr "prescribed" a "regulations" *gweler* adran 142(1). Mewnosodwyd adran 45A gan adran 41 o Ddeddf Addysg 2002 p.32.
(**2**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac adran 211 o Ddeddf Addysg 2002 p.32.
(**3**) 1996 p.56.
(**4**) 2000 p.21.

(3) Yn y Rheoliadau mae cyfeiriad (sut bynnag y caiff ei eirio) at ysgol gymunedol, ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol neu ysgol gymunedol arbennig neu ysgol sefydledig arbennig yn cynnwys ysgol newydd a fydd yn ysgol o'r fath a chanddi gorff llywodraethu dros dro pan weithredir cynigion o dan unrhyw ddeddfiad.

(4) Yn y Rheoliadau hyn mae cyfeiriad at gorff llywodraethu yn cynnwys corff llywodraethu dros dro ar ysgol newydd sy'n dod o fewn paragraff (3).

(5) Yn y Rheoliadau hyn mae cyfeiriad at ysgol gynradd neu ysgol uwchradd yn golygu ysgol gynradd neu ysgol uwchradd a fydd yn ysgol gymunedol, ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol.

(6) Yn y Rheoliadau hyn nid yw cyfeiriad (sut bynnag y caiff ei eirio) at ysgolion a gynhelir gan awdurdod addysg lleol yn cynnwys ysgolion nad ydynt yn ysgolion a gynhelir fel y'u diffinnir ym mharagraff (2).

(7) Yn y Rheoliadau hyn, oni nodir fel arall, mae cyfeiriadau at wariant yn gyfeiriadau at y gwariant hwnnw yn net o'r canlynol —

(a) pob grant penodedig cysylltiedig;

(b) pob ffi, taliad ac incwm cysylltiedig; ac

(c) cyllid sy'n dod o'r Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â thaliad unedol cynllun PFI.

(8) Yn y Rheoliadau hyn, mae cyfeiriad at grant penodedig yn gyfeiriad at unrhyw grant a delir i'r awdurdod o dan amodau sy'n gosod cyfyngiadau ar ddibenion penodol yr awdurdod y ceir defnyddio'r grant ar eu cyfer, ond nid yw'n cynnwys —

(a) unrhyw grant a wneir gan Gyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant(**5**) mewn perthynas â chyllido chweched dosbarth; neu

(b) unrhyw grant penodedig a ddefnyddir i gefnogi gwariant drwy'r gyllideb ysgolion unigol.

(9) Yn y Rheoliadau hyn, mae cyfeiriad at daliad unedol cynllun PFI yn gyfeiriad at daliad sy'n daladwy gan yr awdurdod addysg lleol o dan drafodiad cyllid preifat.

(10) Yn y Rheoliadau hyn, mae cyfeiriad at drafodiad cyllid preifat yn gyfeiriad at drafodiad fel y diffinnir "transaction" gan reoliad 16 o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf) 1997(**6**).

(11) Yn y Rheoliadau hyn, mae cyfeiriad at fformiwla yn golygu fformiwla a benderfynwyd (ar ôl ymgynghori) gan yr awdurdod addysg lleol cyn dechrau blwyddyn ariannol erbyn pryd y penderfynir ar gyfrannau cyllideb ysgolion yn y flwyddyn ariannol honno gan roi sylw i'r ffactorau, y meini prawf a'r gofynion a ragnodwyd mewn rheoliadau a wnaed o dan adran 47 o Ddeddf 1998.

(12) Yn y Rheoliadau hyn, mae cyfeiriad at wariant cyfalaf yn golygu gwariant y mae awdurdod yn bwriadu ei gyfalafu yn eu cyfrifon yn unol ag arferion priodol sef yr arferion cyfrifyddu hynny —

(a) y mae'n ofynnol i'r awdurdod eu dilyn yn rhinwedd unrhyw ddeddfiad; neu

(b) y gwelir yn gyffredinol eu bod, i'r graddau y maent yn gyson ag unrhyw ddeddfiad o'r fath, boed drwy gyfeiriad at unrhyw god a gyhoeddwyd ac a gydnabyddir yn gyffredinol neu fel arall, yn arferion cyfrifyddu priodol sydd i'w dilyn wrth gadw cyfrifon awdurdodau lleol, naill ai yn gyffredinol neu o'r disgrifiad o dan sylw(**7**).

(13) Yn y Rheoliadau hyn mae cyfeiriadau at CERA yn gyfeiriadau at wariant cyfalaf y mae awdurdod yn disgwyl ei dynnu o gyfrif refeniw'r awdurdod fel y'i diffinnir yn adran 41(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989(**8**).

(**5**) Sefydlwyd Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant o dan adran 30 o Ddeddf 2000.

(**6**) O.S. 1997/319 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1998/371 a 1999/1852.

(**7**) Dyma'r arferion priodol y cyfeirir atynt yn adran 66(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p.42) ac, ar ddyddiad gwneud y rheoliadau hyn, maent yn cynnwys y Cod Ymarfer ar Gyfrifydda Awdurdodau Lleol ym Mhrydain Fawr 2002, fel y'i diweddarwyd (ISBN 0 85299 947 897 X).

(**8**) 1989 p.42.

(14) Yn y Rheoliadau hyn, mae cyfeiriadau at wariant a eithrir yn gyfeiriadau at y dosbarthiadau neu'r disgrifiadau canlynol o wariant —

(a) Gwariant cyfalaf heblaw CERA;

(b) Gwariant at ddibenion adran 26 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**9**)) (trefniadau ar gyfer hebrwng wrth groesfannau ysgol); ac

(c) Gwariant a dynnir gan yr awdurdod addysg lleol o dan adran 51A o Ddeddf 1998(**10**) (gwariant a dynnir at ddibenion cymunedol).

Dirymu

3.—(1) Dirymir Rheoliadau 2, 3 a 5 o Reoliadau Cyllido Ysgolion a Gynhelir 1999 ac Atodlen 2 iddynt(**11**) (i'r graddau y byddent wedi parhau mewn grym yn rhinwedd Deddf Dehongli 1978(**12**)) ar 1 Ebrill 2004.

(2) Ond bydd y rheoliadau hynny a'r Atodlen honno yn parhau i fod yn gymwys at ddibenion cyllido ysgolion a gynhelir mewn unrhyw flwyddyn sy'n dod i ben cyn 1 Ebrill 2004.

Cyllideb ysgolion

4.—(1) Drwy hyn rhagnodir y dosbarthiadau neu'r disgrifiadau o wariant awdurdod addysg lleol a bennir ym mharagraff (2) at ddibenion adran 45A(2) o Ddeddf 1998 a phenderfynu ar gyllideb ysgolion awdurdod addysg lleol.

(2) Dyma'r dosbarthiadau neu'r disgrifiadau o wariant awdurdod addysg lleol —

(a) gwariant ar ddarparu a chynnal a chadw ysgolion a gynhelir ac ysgolion meithrin a gynhelir ac ar addysg y disgyblion a gofrestrwyd yn yr ysgolion hynny;

(b) gwariant ar addysg disgyblion mewn ysgolion annibynnol, ysgolion arbennig nas cynhelir(**13**), unedau cyfeirio disgyblion(**14**)) yn y cartref ac yn yr ysbyty, ac ar unrhyw drefniadau eraill ar gyfer darparu addysg gynradd ac uwchradd i ddisgyblion heblaw mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdod addysg lleol; ac

(c) pob gwariant arall a dynnir mewn cysylltiad â swyddogaethau'r awdurdod mewn perthynas â darparu addysg gynradd ac uwchradd, i'r graddau nad yw gwariant o'r fath yn dod o fewn paragraff (a) neu (b),

ond ddim ond i'r graddau nad yw gwariant o'r fath —

(a) yn dod o fewn dosbarth neu ddisgrifiad o wariant a ragnodir gan reoliad 5 at ddibenion adran 45A(1) o Ddeddf 1998 a phenderfynu ar gyllideb AALl yr awdurdod addysg lleol, a

(b) yn wariant a eithrir.

Cyllideb yr AALl

5.—(1) Drwy hyn rhagnodir y dosbarthiadau neu'r disgrifiadau o wariant awdurdod addysg lleol a bennir yn Atodlen 1 at ddibenion adran 45A(1) o Ddeddf 1998 a phenderfynu ar gyllideb AALl awdurdod addysg lleol, ac eithrio i'r graddau y mae gwariant o'r fath yn wariant a eithrir neu'n dod o fewn paragraff (2).

(2) Daw gwariant o fewn y paragraff hwn os yw'n wariant —

(**9**) 1984 p.27, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol 1985 (p.51), Atodlen 5, paragraff 4(10).
(**10**) Mewnosodwyd gan adran 40 o Ddeddf 2002 a pharagraff 4 o Atodlen 3 iddi.
(**11**) O.S. 1999/101.
(**12**) 1978 p.30.
(**13**) Cymeradwyir a rheoleiddir ysgolion arbennig nas cynhelir gan reoliadau a wneir o dan adran 342 o Ddeddf 1996.
(**14**) Sefydlir unedau cyfeirio disgyblion o dan adran 19 o Ddeddf 1996.

(a) sydd yn rhinwedd cynllun yr awdurdod (o fewn ystyr adran 48(5) o Ddeddf 1998) neu unrhyw ddeddfiad, i'w dynnu o gyfran cyllideb ysgol; neu

(b) sy'n dod o fewn is-baragraff (b) o baragraff 1 o Atodlen 2.

Cyllideb ysgolion unigol

6. Caiff awdurdod addysg lleol ddidynnu o'i gyllideb ysgolion unrhyw un neu'r cyfan o'r dosbarthiadau neu'r disgrifiadau o wariant cynlluniedig a nodir yn Atodlen 2, yn llwyr neu'n rhannol, er mwyn gweld beth yw ei gyllideb ysgolion unigol ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**15**).

D. Elis-Thomas
2 Rhagfyr 2003 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**15**) 1998 p.38.

ATODLEN 1 rheoliad 5

DOSBARTHIADAU NEU DDISGRIFIADAU O WARIANT CYNLLUNIEDIG A RAGNODWYD AT DDIBENION CYLLIDEB AALl AWDURDOD ADDYSG LLEOL

Mae gwariant o ddosbarth neu ddisgrifiad y cyfeirir ato yn yr Atodlen hon yn cynnwys gwariant ar gostau gweinyddol cysylltiedig a gorbenion.

Darpariaeth o natur arbenigol

1. Gwariant ar wasanaethau a roddir gan seicolegwyr addysgol.

2. Gwariant mewn cysylltiad â swyddogaethau'r awdurdod o dan adrannau 321 i 331 o Ddeddf 1996 (swyddogaethau sy'n ymwneud ag adnabod ac asesu plant ag anghenion addysgol arbennig a llunio, cynnal ac adolygu datganiadau ar gyfer y plant hynny).

3. Gwariant ar fonitro'r ddarpariaeth i ddisgyblion mewn ysgolion (os cynhelir hwy gan yr awdurdod neu beidio) at ddibenion lledaenu arferion da mewn perthynas â phlant ag anghenion addysgol arbennig a gwella ansawdd y ddarpariaeth addysgol ar eu cyfer.

4. Gwariant ar gydweithio â chyrff statudol a gwirfoddol i ddarparu cefnogaeth i blant ag anghenion addysgol arbennig.

5. Gwariant mewn cysylltiad â'r canlynol —

(a) darparu gwasanaethau partneriaeth â rhieni(**16**) neu arweiniad a gwybodaeth arall i rieni disgyblion ag anghenion addysgol arbennig sydd, mewn perthynas â disgyblion mewn ysgol a gynhelir gan yr awdurdod, yn ychwanegol at yr wybodaeth a ddarperir fel arfer gan gyrff llywodraethu ysgolion o'r fath; neu

(b) trefniadau a wneir gan yr awdurdod er mwyn osgoi neu ddatrys anghytundebau â rhieni plant ag anghenion addysgol arbennig.

6. Gwariant a dynnir wth baratoi ac adolygu cynllun sy'n nodi'r trefniadau a wneir, neu y bwriedir eu gwneud, gan yr awdurdod mewn cysylltiad ag addysg plant ag anawsterau ymddygiad o dan adran 527A o Ddeddf 1996(**17**).

7. Gwariant ar gyflawni swyddogaethau'r awdurdod o dan Ddeddf Plant 1989(**18**) ac o dan adran 175(**19**) o Ddeddf 2002 a swyddogaethau eraill sy'n ymwneud ag amddiffyn plant.

8. Gwariant a dynnir wrth ymglymu i drefniant neu a dynnir wedyn yn unol â threfniant o dan adran 31 o Ddeddf Iechyd 1999(**20**).

9. Gwariant wrth ddarparu cymorth meddygol arbennig ar gyfer disgyblion unigol i'r graddau na thelir gwariant o'r fath gan Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol(**21**)) neu'r Bwrdd Iechyd Lleol(**22**) neu'r Cynulliad Cenedlaethol.

(**16**) Gwasanaethau partneriaeth â rhieni yw'r gwasanaethau y darperir ar eu cyfer o dan adran 332A o Ddeddf Addysg 1996 i roi cyngor a gwybodaeth i rieni plant ag anghenion addysgol arbennig.
(**17**) Mewnosodwyd adran 527A gan adran 9 o Ddeddf Addysg 1997 (p. 44) a diwygiwyd hi gan baragraff 144 o Atodlen 30 i Ddeddf 1998.
(**18**) 1989 p.41.
(**19**) Caiff adran 175 ei dwyn i rym ar ddiwrnod sydd i'w benodi.
(**20**) 1991 p.81.
(**21**) Diffinnir National Health Service Trusts yn adran 5 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990 p.19.
(**22**) Sefydlir Byrddau Iechyd Lleol drwy orchymyn a wneir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 16BA o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 (p.49) fel y mewnosodwyd hi gan adran 6(1) o Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a'r Proffesiynau Gofal Iechyd 2002 (p.17).